# Cofnodion cryno - Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd

Lleoliad:

4B Tŷ Hywel/Teams

Dyddiad: Dydd Llun, 17 Tachwedd 2025

Amser: 10:30-13:00

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
| --- | --- |
| Aelodau y pwyllgor: | Bob Evans, Cynghorydd Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor<br>Lesley Griffiths AS, Comisiynydd y Senedd ac Aelod o'r Pwyllgor<br>Menai Owen-Jones, Cynghorydd Annibynnol ac Aelod o'r Pwyllgor<br>Dr Mark Egan, Cynghorydd Annibynnol ac Aelod o'r Pwyllgor |
| Staff y Comisiwn: | Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, a'r Swyddog Cyfrifyddu<br>Ed Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd<br>Arwyn Jones, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu<br>Julian Luke, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Lisa Bowkett, Prif Swyddog Cyllid<br>Lee Glover, Prif Weithredwr Archwilio<br>Clare Thomas, Archwilio Cymru |

| | |
|---|---|
| | Leanne Baker, Prif Swyddog Pobl<br><br>Phil Boshier, Pennaeth Llywodraethu a Chynllunio Strategol<br><br>Matthew Richards, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol<br><br>Kathryn Hughes, Clerc y Pwyllgor, a'r Rheolwr Risg, Parhad Busnes a Llywodraethu<br><br>Buddug Saer, Dirprwy Glerc y Pwyllgor a Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth<br><br>Mark Neilson, Pennaeth TGCh a Darlledu (eitem 6)<br><br>Jamie Hancock, Pennaeth Seilwaith TGCh (eitem 6) |
| Eraill: | Uzo Iwobi, Cynghorydd Annibynnol |

## 1 Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Datgan Buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1.2 Nodwyd ymddiheuriadau gan Aled Eirug, Cynghorydd Annibynnol.

1.3 Daeth Lee Glover, Prif Weithredwr Archwilio, i sesiwn breifat gydag aelodau'r Pwyllgor cyn i'r trafodion ffurfiol ddechrau. Nid oedd unrhyw swyddogion eraill y Comisiwn yn bresennol ac ni chymerwyd cofnodion.

## 2 Camau Gweithredu a Materion yn Codi

2.1 Cafodd cofnodion cyfarfod 23 Mehefin eu cymeradwyo y tu allan i'r pwyllgor a nodwyd y diweddariadau i'r amserlen weithredu.

2.2 Nododd y Cadeirydd fod y canlynol wedi'u dosbarthu ers y cyfarfod ffurfiol diwethaf: adroddiad Archwilio Mewnol Cyflogres a Phensiynau; Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2026-27; ac adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Graffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2026-27.

## 3 Cynnydd y gweithgarwch Archwilio Mewnol

3.1 Cyflwynodd Lee Glover yr adroddiad cynnydd, gan grynhoi'r statws yn erbyn cynlluniau 2024-25 a 2025-26. Adroddodd fod tua hanner yr archwiliadau yng nghynllun 2025-26 wedi'u cwblhau, gyda sawl adroddiad wedi'u cyhoeddi ac eraill yn aros i'w cwblhau. Roedd yr adroddiad terfynol ar yr archwiliad seiberddiogelwch yn parhau i fod heb ei gyhoeddi. Tynnodd Lee sylw hefyd at y ffaith y byddai rhai o'r archwiliadau yng nghynllun 2025-26, gan gynnwys yr archwiliad o drefniadau parhad busnes, yn cael eu hadrodd i'r cyfarfod ym mis Mehefin.

3.2 Tynnodd Lee sylw at y cyfraddau cwblhau isel ar gyfer arolygon boddhad cleientiaid a anfonwyd allan gyda'r adroddiadau terfynol, gan nodi bod hwn yn ffordd allweddol ar gyfer cael adborth gan gleientiaid. Awgrymwyd y gallai cyfyngiadau amser fod yn ffactor, a chytunodd swyddogion i annog mwy o gyfranogiad. Pwysleisiodd y Cadeirydd pa mor bwysig yw cael adborth ar gyfer asesu gwerth adolygiadau archwilio mewnol.

3.3 Cynigiodd y Cadeirydd adrodd yn rheolaidd ar statws yr argymhellion a gofynnodd am ddiweddariad yng nghyfarfod mis Chwefror.

Camau i’w cymryd

- Anogir swyddogion i gwblhau arolwg boddhad cleientiaid ar ôl cwblhau archwiliadau.
- Adroddiad ar weithredu argymhellion yr archwiliad i'w gyflwyno yng nghyfarfod mis Chwefror.

## 4 Adroddiadau Archwilio Mewnol

4.1 Cadarnhaodd Lee Glover fod archwiliadau Urddas a Pharch ac Ystafell Argraffu wedi cael sgoriau sicrwydd cadarnhaol, gyda sicrwydd digonol wedi'i ddarparu. Esboniodd y system graddio risg (RAG: Coch, Ambr, Gwyrdd) a'i rôl wrth flaenoriaethu canfyddiadau.

4.2 Mewn perthynas ag archwiliad yr Ystafell Argraffu, gofynnodd y Cadeirydd a allai diffyg cydymffurfio â phrosesau warantu sgôr sicrwydd cyfyngedig. Mewn ymateb, eglurodd Lee fod y sicrwydd cyffredinol yn seiliedig ar farn broffesiynol a natur yr

argymhellion, gan ddod i'r casgliad bod sicrwydd digonol yn briodol o ystyried gwelliannau diweddar i dynhau rheolaethau a chyflwyno prosesau newydd. Croesawodd y Cadeirydd yr esboniad a nododd na ddylai archwilwyr a swyddogion boeni am y sgôr sicrwydd negyddol achlysurol, gan y gallai hyn arwain at welliannau.

## 5 Diweddariad Archwilio Cymru

5.1 Cyflwynodd Clare Thomas yr adroddiad diweddaru a oedd yn ymdrin â ffi archwilio 2024-25, ystyriaethau ar gyfer archwiliad 2025-26 ac astudiaethau cenedlaethol a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru. Mewn ymateb i gwestiwn gan Uzo Iwobi, amlinellodd Clare gyflwyniad IFRS 17 (contractau yswiriant) a'i oblygiadau posibl ar gyfer gwarantau a chontractau. Cynghorodd swyddogion i ystyried unrhyw ofynion hyfforddi posibl ar gyfer staff ar newidiadau i IFRS 17 a fyddai'n angenrheidiol ar gyfer cydymffurfio.

5.2 Cyfeiriodd Clare at gynlluniau ar gyfer trafodaeth gynnar gyda swyddogion ar gyfrifyddu ar gyfer gwariant cyfalaf yn erbyn gwariant refeniw, a'r amserlen ar gyfer yr archwiliad interim. Nododd hefyd y gallai'r ffi archwilio gynyddu ychydig oherwydd bod gwariant uwch yn mynd drwy'r cyfrifon eleni.

5.3 Mewn ymateb i gwestiynau gan aelod o'r Pwyllgor, cytunodd swyddogion y gellid ystyried cyllidebu ar sail sero yn y dyfodol ar gyfer y Seithfed Senedd.

## 6 Diweddariad ar seiberddiogelwch

*Nid yw rhai manylion wedi'u cofnodi yn y cofnodion oherwydd eu natur sensitif*

6.1 Nododd y Cadeirydd ei bod hi'n bwysig cymryd y cyfle hwn i'r Pwyllgor dderbyn diweddariad cynhwysfawr ar seiberddiogelwch, cyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai.

6.2 Cyflwynodd Jamie Hancock grynodeb o ddiweddariadau seiberddiogelwch allweddol, gan gynnwys gwelliannau mewn canfod ymosodiadau, perfformiad gweithredol, cynnydd cydymffurfio, a mentrau diwylliannol. Rhoddodd wybod am ystadegau mewn perthynas â nifer yr ymosodiadau a gafodd eu rhwystro gan y system atal ymyrraeth, nifer yr ymdrechion gwe-rwydo a gyrhaeddodd flychau post a gwelliannau mewn amddiffynfeydd perimedr.

6.3 Trafododd y Pwyllgor risgiau parhaus, gan gynnwys meddalwedd wystlo ac actorion ar ran cenedl wladwriaeth, pwysigrwydd defnyddio deallusrwydd artiffisial yn

gyfrifol, parhau i ddefnyddio’r Gwasanaeth Cymorth Seiber Personol (PCAS) ar gyfer diogelwch dyfeisiau personol yr Aelodau a hyfforddiant seiberddiogelwch gorfodol. Roedd gwaith yn parhau ar fersiwn Cymraeg y platfform Ymwybyddiaeth Defnyddwyr. Disgwylid y byddai hyn yn cael effaith fesuradwy ar gydymffurfiaeth maes o law.

*Gwersi o Ddigwyddiadau Seiber Diweddar*

6.4 Adolygodd y Pwyllgor y papur a oedd yn cyfeirio at nifer o ddigwyddiadau seiber diweddar, ac a adroddwyd yn eang, a brofwyd gan sefydliadau mawr yn y DU, gan nodi'r effeithiau trychinebus a pha mor gyffredin yw peirianneg gymdeithasol ac ymosodiadau a ysgogir gan AI. Amlinellwyd amddiffynfeydd y Senedd, gan gynnwys dilysu aml-ffactor, gwiriadau adnabod llym, monitro 24/7 gan y Ganolfan Gweithrediadau Diogelwch a mynediad VPN cyfyngedig sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddyfeisiau'r Senedd gael mynediad i'r system. Pwysleisiodd aelodau'r pwyllgor yr angen am ymateb cyflym i ddigwyddiadau ac effaith seiber-ymosodiadau ar bobl.

6.5 Nododd y Pwyllgor gynlluniau i brofi cynlluniau parhad busnes ac ymateb i ddigwyddiadau, gan gynnwys ymosodiadau efelychiedig, ac i weithio gyda phob maes gwasanaeth i sicrhau bod cynlluniau parhad busnes (BC) ac adfer ar ôl trychineb (DR) cadarn ar waith.

6.6 Roedd y Pwyllgor a swyddogion TGCh yn dymuno cofnodi eu diolch i Tim Bernat a oedd wedi gadael y sefydliad yn ddiweddar. Roedd Tim wedi gwneud cyfraniad enfawr ac wedi ymgymryd â'r rôl gyda phroffesiynoldeb ac ymroddiad. Roedd proses recriwtio ar waith ar gyfer swydd Pensaer Diogelwch TGCh.

6.7 Diolchodd y Cadeirydd i Mark Neilson a Jamie am y diweddariad ac am rannu'r wybodaeth a gyflwynwyd i Bwyllgor Cyllid a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd. Cytunwyd y byddai diweddariad pellach yn canolbwyntio ar gynlluniau BC a DR yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Chwefror.

Camau i’w cymryd

- Rhannu ystadegau ar nifer y staff cymorth Aelodau sy'n defnyddio PCAS gyda Lesley Griffiths, Comisiynydd.
- Sicrhau bod manylion y Gwasanaeth Cymorth Seiber Personol (PCAS) yn cael eu cyfleu ar draws y Comisiwn ac Aelodau a staff.

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau parhad busnes (BC) ac adfer ar ôl trychineb (DR).

## 7 Y wybodaeth ddiweddaraf am gyllid

7.1 Rhoddodd Lisa Bowkett y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd prosiectau mawr sydd eisoes wedi'u cyllidebu ac am y broses benderfynu ar gyfer blaenoriaethu pob prosiect arall. Rhoddodd ddiweddariad hefyd ar ddadleuon cyllideb, a chynllunio senarios pe na bai cyllideb Llywodraeth Cymru yn cael ei chymeradwyo. Nododd y Pwyllgor y byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar gyllideb y Comisiwn ar gyfer 2026-27 a chroesawodd ystyried cynllunio wrth gefn.

7.2 Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor mewn perthynas â chyflog staff y Comisiwn, cynghorodd Lisa, er gwaethaf un o'r undebau yn gwrthod y cynnig, y byddai'r dyfarniad cyflog yn cael ei weithredu ar gyfer 2025-26, ac y byddai trafodaethau'n dechrau gyda'r Undebau Llafur ar gyfer y dyfodol.

## 8 Adroddiad Diweddaru Llywodraethu a Chynllunio Strategol

8.1 Rhoddodd Phil Boshier y wybodaeth ddiweddaraf am y fframwaith sicrwydd, y fframwaith rheoli risg, parhad busnes a'r fframwaith cynllunio.

8.2 O ran y fframwaith sicrwydd, atgoffodd Phil y Pwyllgor o'r gwaith a wnaed yn flaenorol i wella mapio sicrwydd ar y lefel gorfforaethol ac amlinellodd gynlluniau i addasu casglu sicrwydd lefel gwasanaeth i gysoni hyn a'i symleiddio lle bo modd.

8.3 O ran parhad busnes (BC), amlinellodd Phil gynnydd ar yr adolygiad sylfaenol ac adnewyddu system reoli BC, gyda chymeradwyaeth y Bwrdd Gweithredol o bolisi wedi'i ddiweddaru a Chynllun BC corfforaethol a fyddai'n llywio adolygiad o gynlluniau BC ar bob lefel ar draws y Comisiwn.

8.4 Mewn perthynas â'r fframwaith cynllunio strategol, amlinellodd Phil sut roedd y cylch cynllunio tair blynedd integredig a oedd ar waith yn gweithio'n ymarferol o ran cynllunio gwasanaethau yn llywio cynllunio cyllideb a phrosiectau, gan dynnu sylw at integreiddio cynlluniau corfforaethol a chynlluniau gwasanaeth.

8.5 Amlinellodd Phil hefyd y newidiadau i'r strwythur llywodraethu o amgylch rhaglenni mawr ar gyfer y Seithfed Senedd wrth iddynt symud o'r cyfnod cynllunio i'r cyfnod

cyflawni. Roedd y ffrydiau gwaith cydran bellach yn cael eu rheoli'n uniongyrchol gan y tri Chyfarwyddwr fel Uwch-swyddogion Cyfrifol, gan ddisodli'r byrddau rhaglenni, gyda goruchwyliaeth gyfunol agosach gan y Bwrdd Newid, a oedd wedi diweddaru'r cylch gorchwyl. Roedd y Bwrdd Newid wedi cymeradwyo'r broses adrodd lle'r oedd yn adolygu adroddiadau parodrwydd ar gyfer etholiadau bob mis. Byddai'r tîm Clercio yn parhau i gylchredeg y dangosfwrdd pan fyddai ar gael.

8.6 Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor, disgrifiodd Julian Luke sut roedd y newid hwn wedi galluogi goruchwyliaeth o'r rhyngddibyniaethau ar draws y rhaglenni wrth iddynt symud i'r cyfnod cyflawni.

Cam i'w gymryd

- Parhau i rannu dangosfyrddau'r Bwrdd Newid misol ar adolygiadau parodrwydd ar gyfer tair ffrwd waith y Seithfed Senedd gydag aelodau'r Pwyllgor pan fyddant ar gael.

## 9 Adrodd ar achosion o dorri diogelwch data

9.1 Adolygodd y Pwyllgor yr adroddiad ar achosion o dorri diogelwch data, gan nodi cynnydd yn nifer y digwyddiadau a briodolir i wallau dynol. Nododd swyddogion hefyd y risg uwch o dorri rheolau yn ymwneud â gweithredu'r system AD/Cyflogres newydd a rhoddasant sicrwydd bod y rhain yn cael sylw.

## 10 Crynodeb gwyro

10.1 Nododd y Pwyllgor dri achos o ymadael â'r gweithdrefnau caffael arferol ers cyfarfod mis Mehefin. Ni chodwyd unrhyw faterion.

## 11 Risgiau corfforaethol

11.1 Nododd y Pwyllgor y crynodeb wedi'i ddiweddaru o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Gofynnodd Kathryn Hughes i aelodau'r Pwyllgor am adborth ar gyflwyniad y crynodeb a'r wybodaeth fanwl a gynhwysir yn yr adroddiadau. Gwnaed awgrymiadau ynghylch ymgorffori parodrwydd i dderbyn risg ac ar gyfer defnyddio codio lliw i helpu i nodi gwybodaeth newydd. Cytunodd Kathryn i ystyried hyn.

11.2 Disgrifiodd Kathryn sut y cynhaliodd y Bwrdd Gweithredol adolygiadau cynhwysfawr o'r risgiau unigol, gan gynnwys y sgôr risg yn ogystal â'r proffil risg, gan herio'r diweddariadau a ddarparwyd gan berchnogion risg. Tynnodd sylw hefyd at y risg newydd a ychwanegwyd at y Gofrestr ynghylch adnoddau ariannol, gan nodi bod hyn wedi'i drafod o dan eitem 7.

Cam i'w gymryd

- Ystyried cynnwys parodrwydd i dderbyn risg ac amlygu gwybodaeth newydd mewn adroddiadau risg.

## 12 Archwiliad beirniadol o un risg gorfforaethol neu bwnc amserol a nodwyd - Diwygio'r Senedd

12.1 Cyflwynodd Julian Luke y wybodaeth ddiweddaraf am reoli risgiau sy'n ymwneud â Diwygio'r Senedd. Roedd hyn yn cynnwys cynlluniau ar gyfer newidiadau i'r Rheolau Sefydlog, sefydlu a hyfforddi Aelodau newydd (yn gysylltiedig â hyfforddiant Gweinidogion Llywodraeth Cymru), a chynllunio adnoddau i baratoi ar gyfer dechrau'r Seithfed Senedd. Roedd ymarferion cynllunio senarios ar y gweill i fynd i'r afael ag ansicrwydd yn y cyfnod ar ôl yr etholiad. Fel y nodwyd o dan eitem 8 o'r cofnodion hyn, roedd y strwythur llywodraethu wedi'i ddiwygio i wella goruchwyliaeth a chydweithio traws-gyfarwyddiaeth. Cyn hyn, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd amrywiol ffrydiau gwaith wedi bod yn adrodd i strwythurau llywodraethu rhaglenni ffurfiol. Cydnabuwyd risgiau sy'n gysylltiedig â chapasiti, gallu, a therfynau amser prosiectau, gyda chynlluniau recriwtio graddol a chynlluniau wrth gefn ar waith.

12.2 Disgrifiodd Julian gynllunio ar gyfer Senedd newydd gan nodi bod hyn ar raddfa llawer mwy o ystyried y newidiadau oedd eu hangen i gyflawni Diwygio'r Senedd a nifer yr Aelodau newydd. Amlinellodd hefyd y dystiolaeth a gesglir i lywio penderfyniadau cynnar ar drefniadaeth busnes a strwythurau pwyllgorau, er enghraifft.

12.3 Amlinellodd Julian hefyd y gwaith parhaus sy'n ymwneud ag Adolygiad Seneddol sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd (o ganlyniad i'r Archwiliad Seneddol sy'n Sensitif i Rywedd). Roedd yr aelodau'n ymgysylltu â seneddau eraill ac roedd academyddion yn rhan o'r adolygiad. Mewn ymateb i ymholiad gan Lesley Griffiths, cydnabu Julian rôl hanfodol Rheolau Sefydlog. Roedd y gwaith sydd ar y gweill yn

debygol o arwain at newidiadau pellach i'r Rheolau Sefydlog pe bai'r argymhellion yn cael eu cymeradwyo.

12.4 Roedd adolygiadau ynghylch Urddas a Pharch a'r Cod Ymddygiad i Aelodau hefyd yn mynd rhagddynt, gan ystyried darpariaethau Bil Atebolrwydd Aelodau'r Llywodraeth.

12.5 Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor, rhoddodd Julian sicrwydd ynghylch sut yr oedd cymhlethdodau paratoi ar gyfer newid mor drawsnewidiol a'r risgiau cynhenid yn cael eu rheoli.

12.6 Diolchodd y Cadeirydd i Julian am ei grynodeb cynhwysfawr o'r paratoadau sydd ar y gweill ar gyfer y Seithfed Senedd, yn enwedig o ystyried y cymhlethdodau.

## 13 Gwasanaethau a Staff y Senedd

13.1 Cafodd yr eitem hon ei thrafod fel rhan o'r diweddariad ar risg gorfforaethol Diwygio'r Senedd o dan eitem 12.

## 14 Etholiad

14.1 Disgrifiodd Arwyn Jones y gwaith sy'n cael ei wneud gan ei gyfarwyddiaeth ar y cyd â'r Comisiwn Etholiadol. Roedd y tîm Ymgysylltu yn blaenoriaethu ysgolion uwchradd, drwy dargedu pleidleiswyr ifanc rhwng 16 a 17 oed.

## 15 Ystâd y Senedd

15.1 Rhoddodd Ed Williams y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar gynnydd y gwaith yn Nhŷ Hywel, a oedd yn cynnwys creu cymysgedd o le ar gyfer y 36 Aelod ychwanegol. Amlinellodd hefyd fod y prosiect i ailgyflunio'r Siambr yn y Senedd yn parhau i fod o fewn y gyllideb ac ar amser; fodd bynnag, ystyriwyd ei fod yn risg uchel oherwydd yr amserlen dynn. Y cynllun presennol oedd i'r Aelodau ddychwelyd i'r Siambr ar ôl toriad mis Chwefror.

## 16 Adolygu canllawiau HMT/eraill ar gyfer ARAC

16.1 Nododd y Pwyllgor y papur a oedd yn amlinellu nifer o ddiweddariadau i Lawlyfr Archwilio a Sicrwydd Risg Trysorlys EF.

## 17 Adolygiad o'r Cylch Gorchwyl

17.1 Nododd y Pwyllgor y cylch gorchwyl wedi'i ddiweddaru.

## 18 Y flaenraglen waith

18.1 Cytunodd y Pwyllgor i ystyried y materion canlynol yn ei gyfarfodydd yn y dyfodol:

- 23 Chwefror 2026 - Ymchwiliad manwl: Capasiti a Gallu

- Ebrill (i'w gadarnhau) – Ymchwiliad manwl: Urddas a Pharch

- Mehefin (i’w gadarnhau) – absenoldeb oherwydd salwch (fel yr adroddwyd yn y dangosyddion perfformiad allweddol)

18.2 Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau ac ansawdd y papurau a gyflwynwyd.

Disgwylir i'r cyfarfod nesaf gael ei gynnal ar 23 Chwefror 2026.

## 19 Atodiad - Adroddiadau Archwilio Mewnol wedi'u cylchu allan o'r pwyllgor